
ATODIAD A

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2023-24

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

www.wrexham.gov.uk | www.wrecsam.gov.uk



# Cyflwyniad gan Hyrwyddwr Craffu

Y Cynghorydd Frank Hemmings ydw i ac rwy'n gynghorydd dros ward Gogledd y Waun. Rwyf hefyd yn Hyrwyddwr Craffu'r Cyngor. Mae fy rôl yn gofyn i mi arwain a hyrwyddo'r swyddogaeth graffu y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o'r rôl bwysig y mae Aelodau Craffu yn ei chwarae. Rydym yn goruchwylio gweithrediadau'r Cyngor a'n partneriaid i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau i bobl y Fwrdeistref Sirol. Mae'r gwaith craffu yn parhau i ddatblygu i helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r "materion mawr" y mae'r Cyngor a phobl Wrecsam yn eu hwynebu.

Y cyfnod sy'n cael ei adolygu yn yr adroddiad hwn yw rhwng Mehefin 2023 a Mai 2024. Yn ystod y cyfnod dan sylw roedd y Cynghorydd Tina Mannering yn Hyrwyddwr Craffu. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddi am y gwaith y mae wedi'i wneud yn y rôl hon.

Dyma flwyddyn gyntaf Cynllun newydd y Cyngor 2023-28 ac adolygwyd ein rhaglenni gwaith craffu i gyd-fynd yn fras â'r blaenoriaethau newydd a byddant yn parhau i ddatblygu wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Rydym hefyd wedi craffu ar wasanaethau a wynebodd pwysau cyllidebol sylweddol yn ystod y flwyddyn a adolygwyd - gofal cymdeithasol plant ac oedolion, addysg a thrafnidiaeth ysgol.

Caiff gwaith a wnaed yn ystod 2023/24 ei amlinellu gan bob pwyllgor yn yr adroddiad hwn. Os hoffech weld mwy o fanylion am y gwaith a amlygwyd, mae pob eitem yn cynnwys y dyddiadau y cafodd ei ystyried gan y pwyllgor hwnnw. Gellir gweld yr adroddiadau a'r cofnodion cysylltiedig drwy'r ddolen ganlynol Strwythur Pwyllgorau | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Fel yr amlinellwyd, mae craffu yn broses weithredol nad yw'n ar wahân i'r gymdeithas ehangach. Rydym yn parhau i obeithio, lle y caniateir a lle bo'n briodol, bod ein prosesau'n agored, yn gyfranogol ac yn ymchwiliol a'n bod yn mabwysiadu dull hyblyg er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae mabwysiadu'r dull cywir yn yr amgylchiadau cywir yn allweddol wrth gyflawni'r canlyniad cywir. Mae enghreifftiau o hyn wedi cynnwys:-

- Cynhaliwyd gweithdy anffurfiol ar flaenoriaethau cynnal a chadw ysgolion ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, Ysgol Llan-y-Pwll. Roedd hyn yn cynnwys taith o amgylch yr ysgol newydd. Roedd hyn yn rhoi gwell

dealltwriaeth i'r Aelodau o sut mae gwaith cynnal a chadw a buddsoddiadau mewn ysgolion yn cael eu blaenoriaethu, er mwyn llywio eu hystyriaeth o feini prawf newydd ar gyfer buddsoddi cyfalaf gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

- Clywed barn pobl y mae’r materion sy'n cael eu hystyried yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Mae hyn wedi cynnwys penaethiaid yn trafod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, ymgysylltu â llais disgyblion a lles disgyblion; cynrychiolwyr Bwrdd Cynghori Tŷ Pawb a gweithredwyr ysgol fusnes sydd wedi helpu busnesau Wrecsam.
- Gweithio ar y cyd ag Aelodau a Swyddogion Cyngor Sir y Fflint i ddatblygu Cytundeb Compact Craffu a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam, a gweithdy ar y cyd gyda Chynghorwyr Sir y Fflint ym mis Mai 2024 a oedd yn cynnwys canllaw ymarferol ar ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi bod yn ymwneud â chraffu yn ystod y flwyddyn am eu cyfraniadau wrth helpu i gyflawni ar gyfer pobl Wrecsam.

## CYMERWCH RAN!

### Sut, Pryd a Ble?

Mae pwyllgorau'n tueddu i gyfarfod bob mis. Rydym yn gwahodd penderfynwyr, partïon â diddordeb ac arbenigwyr i'n helpu gyda'n trafodaethau. Rydym fel arfer yn cyfarfod yn Neuadd y Dref. Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Blynyddol hwn, rydym wedi parhau i gynnal cyfarfodydd hybrid. Mae nifer o Gynghorwyr a Swyddogion yn bresennol yn yr ystafell, yn ogystal ag eraill sy'n ymuno o bell. Gall partïon a wahoddir hefyd ymuno â'r cyfarfodydd hyn naill ai wyneb yn wyneb neu o bell. Yn gyffredinol, mae ein cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae ein hagenda a'n hadroddiadau cysylltiedig ar gael ar wefan y Cyngor. Rydym hefyd yn gwe-ddarlledu rhan fwyaf o'n cyfarfodydd a gallwch wylio'r rhain yn fyw neu o'n harchifau drwy wefan y Cyngor. Hoffem wybod beth rydych chi'n ei feddwl.

**"Pa faterion sy'n bwysig i chi a'r bobl yn eich ardal chi?"**

**"Oeddech chi'n gwybod y gall y cyhoedd awgrymu materion i bwyllgorau craffu edrych arnynt?"**

**"Pa faterion rydych chi'n meddwl y dylai'r Cyngor a'i bartneriaid fynd i'r afael â nhw?"**

Defnyddiwch y ddolen ganlynol i'ch helpu i **GYMRYD RHAN!** Cymryd rhan - Craffu yn Wrecsam

## OES GENNYCH UNRHYW GWESTIYNAU?

Gallwch gysylltu â'r **Tîm Cymorth Craffu** trwy e-bostio: scrutiny@wrexham.gov.uk neu drwy **eich cynghorydd lleol:** Cynghorwyr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

# EIN PWYLLGORAU CRAFFU

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe blaenoriaeth:
- Darparu Gwasanaethau Strydlun Effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd
- Datblygu'r Economi
- Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel
- Gwella Addysg a Dysgu
- Hyrwyddo Iechyd a Lles Da (gyda ffocws ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl Da)
- Cefnogi Gweithlu Medrus ac Ymgysylltiedig, sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau

Mae gwaith pum Pwyllgor Craffu'r Cyngor yn canolbwyntio ar gefnogi'r meysydd blaenoriaeth canlynol. Mae'r materion y byddech chi'n disgwyl iddyn nhw eu trafod yn cael eu hamlinellu isod:-

- **Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddi** - Canolbwyntio ar Wrecsam fel man lle mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu, ymweld a buddsoddi; bod busnesau'n cael eu cefnogi i leoli a thyfu yma a bod pobl yn gallu ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod datblygu economaidd a gwasanaethau cymorth busnes, mentrau gwrthdlodi, twristiaeth a diwylliant, adfywio a datblygu gwledig a threfol;

- **Diogelu, Cymunedau a Lles** - Canolbwyntio ar wneud i bobl Wrecsam deimlo'n ddiogel gydag aneddiadau, cymdogaethau, adeiladau a mannau cynaliadwy a deniadol. Sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a bod ganddynt iechyd a lles da. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion, tlodi plant, iechyd, gwasanaethau diogelu'r cyhoedd, gwasanaethau hamdden / llyfrgell a chanolfannau cymunedol, a materion sy'n ymwneud â throsedd ac anrhefn a chydlyniant cymunedol;

- **Cartrefi a'r Amgylchedd** - Canolbwyntio ar ddarparu cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl mewn cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda. Sicrhau ein bod yn Fwrdeistref Sirol sy'n gyfrifol yn amgylcheddol. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod cartrefi (tai fforddiadwy, y stoc dai y Cyngor a thai cymdeithasol, digartrefedd), rheoli gwastraff, effeithlonrwydd ynni, gwasanaethau strydlun a'r rhwydwaith trafnidiaeth ffyrdd/cynnal a chadw priffyrdd;

- **Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu** - Sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn arloesol, wedi'n trefnu'n gadarn, bod gennym ddigon o adnoddau a'n bod yn cael ein llywodraethu, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Wrecsam. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod rheoli perfformiad, Adnoddau Dynol, materion cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, cyswllt cwsmeriaid (gan gynnwys y Ganolfan Gyswllt), trefniadau cyllid a rheoli asedau'r Cyngor, trefniadau partneriaeth a chydweithio a gwasanaethau democrataidd y Cyngor;

- **Dysgu Gydol Oes** - Canolbwyntio ar feysydd sy'n sicrhau bod gan bobl ddyheadau, addysg a photensial cadarnhaol. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod materion addysg (plant ac oedolion) a llyfrgelloedd.

# PWYLLGOR CRAFFU CYFLOGAETH, BUSNES A BUDDSODDI

**Cynllun Creu Lleoedd (Gorffennaf 2023)**

Mae Cynllun Creu Lleoedd y Cyngor yn amlinellu dull trosfwaol o wella lleoedd ac ysbrydoli pobl i ail-ddychmygu a dylanwadu ar y ffordd y mae lle maen nhw'n byw, gweithio, ymweld â nhw ac yn buddsoddi ynddynt yn edrych, teimlo ac yn gweithredu. Mae'n darparu egwyddorion ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan a fframwaith ar gyfer uchelgeisiau Dinas Ddiwylliant 2029 y Cyngor. Yn benodol, mae'n hyrwyddo gwell dylunio a datblygu, defnydd tir mwy apelgar, seilwaith corfforol, diwylliannol a chymdeithasol, a thwf parhaus. Cafodd y Cynllun drafft ei ystyried gan y Pwyllgor cyn ei gymeradwyo. Wrth ystyried effaith y Cynllun arfaethedig, cytunodd y pwyllgor i gefnogi'r Cynllun i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol, yn amodol ar newidiadau arfaethedig, gan gynnwys; bod y grŵp cyfeirio arfaethedig yn cynnwys cynrychiolaeth o'r 3ydd sector ac y cyfeirir at drafnidiaeth gymunedol a chysylltedd, lle maent wedi'u nodi yn amcanion y Cynllun. Yn ogystal â sylwadau ar y cynllun, gofynnodd y pwyllgor i'r ddarpariaeth o dechnoleg glyfar gael ei harchwilio mewn perthynas â'r arwyddion newydd arfaethedig ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, bod adroddiad y dyfodol ar fodel cyflawni'r Cynllun Creu Lleoedd yn cael ei ystyried gan y pwyllgor cyn iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol, roedd y cyllid a nodwyd at y diben hwn ar gael o hyd, bod ffilm esboniadol o'r Cynllun Creu Lleoedd yn cael ei harchwilio a bod ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun yn parhau fel y bo'n briodol. Derbyniwyd y cynigion hyn pan gymeradwywyd y Cynllun a bydd model cyflawni'r Cynllun yn cael ei ystyried fel rhan o raglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol.

**Trefi SMART (Medi 2023 a Mai 2024)**

Mae Tref SMART yn un lle gall technoleg ddigidol helpu i gasglu data y gellir ei ddehongli i gefnogi Cynghorau, busnesau, defnyddwyr a phreswylwyr i wneud penderfyniadau gwell. Amlygwyd y rôl bwysig y gallai technoleg o'r fath ei chwarae yn natblygiad Wrecsam gan waith a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adfywio Canol Tref y Pwyllgor. Ei argymhelliad oedd bod adroddiad pellach ar ddatblygiad y Fenter Tref Smart, gan ystyried ei effaith gadarnhaol ar ddenu ymwelwyr, creu'r amodau ar gyfer datblygu busnes a hysbysu cymorth i fusnesau; a mesurau gwella perfformiad yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael. Cafodd adroddiad sy'n bodloni'r gofynion hyn, gyda diweddariadau, ei ystyried ym mis Medi 2023. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau ar fyrddau gwybodaeth electronig, gan ymgorffori data synwyryddion wrth wneud penderfyniadau, darpariaeth ffibr yn y dyfodol ar gyfer Wrecsam a chynllun peilot wedi'i gefnogi, ynghyd â chyfleoedd i wneud cais am gyllid pellach. Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried ym mis Mai 2024 ac ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwyntiau a godwyd yn flaenorol, cynghorwyd y Pwyllgor ar ddatblygiadau mewn Cysylltedd, Gwybodaeth a Phrofiad Ymwelwyr, Ap Wrecsam, Proffil ac Ymwybyddiaeth, Creu Lleoedd a'r camau nesaf ar gyfer Trefi SMART. Cydnabu'r Pwyllgor y rôl gynyddol y bydd prosiectau SMART yn ei chael ar fanteisio ar y ffocws byd-eang ar yr ardal a'r angen i sicrhau bod y cynnig y mae'r ardal yn ei ddarparu yn cwrdd â gofynion pobl leol, ynghyd ag ymwelwyr cenedlaethol a rhyngwladol. Gofynnodd y Pwyllgor fod unrhyw newidiadau posibl yn narpariaeth teledu cylch cyfyng yn ystyried safleoedd y celfi stryd SMART newydd, a bod y Byrddau Newid a Datgarboneiddio yn edrych ar y cyfleoedd y bydd datblygiadau yn y maes hwn yn eu cael yn eu meysydd cyfrifoldeb. Gofynnodd y pwyllgor hefyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â datblygiad a phoblogrwydd ap VSTA ac am adborth ar wybodaeth a ddarperir gan y seilwaith digidol newydd yng nghanol y ddinas.

## PWYLLGOR CRAFFU CWSMERIAID, PERFFORMIAD, ADNODDAU A LLYWODRAETHU

**Adroddiadau Monitro'r Gweithlu (Gorffennaf 2023 a Mawrth 2024)**

Rydym yn parhau i fonitro lefelau absenoldeb, perfformiad, hyfforddiant a salwch o fewn Gweithlu'r Cyngor bob chwe mis er mwyn sefydlu unrhyw dueddiadau a gyda'r bwriad o leihau absenoldeb salwch a'r defnydd o staff asiantaeth. Er bod cyfraddau salwch wedi cynyddu ers pandemig Covid ynghyd â'r duedd genedlaethol, dangosodd yr adroddiad diweddaraf ostyngiad bach yn y cyfraddau salwch o gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol a gostyngiad yng nghost staff asiantaeth, yn enwedig mewn Adrannau Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd. Y gobaith yw y bydd hyn yn parhau i ostwng, gyda'r ystod o fentrau iechyd a lles sy'n cael eu gweithredu a'r ymgyrch recriwtio fewnol 'tyfu eich talent eich hun'. Oherwydd yr arbedion sylweddol yn y gyllideb y mae'r Bwrdd Newid ac Effeithlonrwydd newydd yn gweithio drwyddynt, bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r maes hwn i ystyried effaith y newidiadau hyn ar les a pherfformiad ei weithlu.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam (BGC) (Rhagfyr 2023)**

Cafodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ei sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LlCD). Mae'n gorff partneriaeth sy'n cynnwys aelodau statudol o Iechyd, Awdurdod Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Tân ac Achub a phartneriaid anstatudol eraill. Pwrpas y Bwrdd yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ardal yr awdurdod lleol. Datblygu cynaliadwy yw egwyddor allweddol gweithgareddau'r Bwrdd. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod popeth y mae'n ei wneud yn cael ei lywio gan y pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, cyfranogiad, cydweithio ac integreiddio).

Mae gan y Pwyllgor hwn bwerau statudol i graffu ar waith y BGC ac mae'n cyfarfod â chynrychiolwyr yn flynyddol. Ar ôl cyfuno BGC Sir y Fflint a Wrecsam ym mis Ionawr 2023, manteisiwyd ar y cyfle i adolygu'r Protocol Craffu a BGC a datblygu Compact Craffu a BGC newydd ('cytundeb i gydweithredu'). Ar ôl cael y profiad o weithio drwy gylch 5 mlynedd o gynllun Lles y BGC, mae'r Compact wedi'i grynhoi'n ganllaw llawer mwy ymarferol ar sut y bydd y BGC a Chraffu yn gweithio gyda'i gilydd yn Wrecsam. Mae'n nodi:-

- Rolau a dyletswyddau craffu a'r BGC
- Amserlen ar gyfer datblygu a monitro cynllun lles y BGC
- Cynnwys y BGC, y Pwyllgor Craffu, Cadeiryddion a Swyddogion cynorthwyol yn ystod gwahanol gamau o'r broses.

Cytunwyd ar y Compact yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2023, ynghyd ag argymhelliad i gynnal Gweithdy Pob Aelod ar y pum ffordd o weithio, i gynnwys Cynghorwyr Sir y Fflint. Cynhaliwyd y gweithdy ym mis Mai ac mae'n ddechrau rhywfaint o waith anffurfiol ar y cyd rhwng pwyllgorau craffu Wrecsam a Sir y Fflint ar waith BGC Sir y Fflint a Wrecsam. Y gobaith yw y gellir mabwysiadu Compact Craffu Wrecsam a'r BGC ar gyfer trefniadau craffu Sir y Fflint hefyd, er mwyn creu rhywfaint o synergedd mewn prosesau ac amserlenni, tra'n cynnal atebolrwydd lleol hefyd.

## PWYLLGOR CRAFFU CARTREFI A'R AMGYLCHEDD

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Datgarboneiddio a Chynllun Datgarboneiddio (Mehefin 2023 a Rhagfyr 2023)**

Datganodd Cyngor Wrecsam Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Medi 2019, a chyhoeddodd Gynllun Datgarboneiddio ym mis Mai 2021, gan ganolbwyntio ar bum thema allweddol (Adeiladau ac Ynni, Trafnidiaeth a Symudedd, Defnydd Tir a Seilwaith Gwyrdd, Cadwyn Caffael a Chyflenwi a Dylanwadu a galluogi newid. Yn ôl adroddiad blynyddol y flwyddyn flaenorol, byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i edrych yn fanwl ar sut y bydd Newid Ymddygiad yn ysgogi datgarboneiddio, y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad. Adroddodd y Grŵp eu canfyddiadau i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2023. Cyfarfu'r grŵp bum gwaith. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor nifer o raglenni a mentrau sy'n allweddol wrth gefnogi newid ymddygiad, y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad, a fydd yn helpu i gyflawni datgarboneiddio. Cafodd y rhain eu hystyried a'u hadolygu gan y Grŵp gyda'r bwriad o nodi meysydd y gellid eu hychwanegu neu lle credwyd y gellid rhoi ffocws ychwanegol i ysgogi newid ymddygiad. Roedd eu hadroddiad yn nodi manylion y wybodaeth a ystyriwyd gan y Grŵp, eu barn ar y cynnydd a wnaed a chanfyddiadau ac argymhellion canlyniadol.

Daeth y Grŵp i'r casgliad bod ystod eang o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn ac y dylid cefnogi'r mentrau a'r rhaglenni presennol a amlinellwyd. Ni nodwyd unrhyw feysydd gwaith ychwanegol penodol ac mae nifer o gamau gweithredu posibl yn y dyfodol i raglenni a mentrau presennol yn cael eu nodi a'u cefnogi i'w hystyried. Mae rôl Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn edrych ar feysydd penodol yn llawer mwy manwl nag adroddiad rheolaidd, ond mewn rhai achosion ei rôl yw sicrhau bod y camau cywir yn cael eu dilyn, fel yn yr achos hwn. Cytunodd y Pwyllgor ar y chwe argymhelliad a wnaeth, a oedd yn nodi ffocws a chefnogaeth ar feysydd neu raglenni oedd eisoes ar y gweill.

**Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (Mai 2023)**

Nid yw lefelau defnyddwyr y mwyafrif o wasanaethau bysus lleol wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig. Gan gydnabod hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £5.61 miliwn yn ychwanegol i Ogledd Cymru ar gyfer 2024/25 ar ffurf Grant Rhwydwaith Bysiau. Darperir hyn yn ychwanegol at y Grant Cymorth Gwasanaeth Bysiau presennol, er mwyn darparu cyllid i gynnal y rhwydwaith bysiau ledled Gogledd Cymru, lle mae gweithredwyr wedi nodi gwasanaethau nad ydynt bellach yn fasnachol hyfyw. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer caffael ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024 i gael cyflwyniadau o gynigion amserlenni i lenwi bylchau a nodwyd yn y rhwydwaith bysiau masnachol. Sylweddolodd y Pwyllgor y rôl bwysig sydd gan drafnidiaeth gyhoeddus well mewn nifer o feysydd allweddol, roedd y rhain yn cynnwys datgarboneiddio trafnidiaeth, gwella ansawdd cyfleoedd i drigolion nad oes ganddynt eu trafnidiaeth eu hunain, caniatáu datblygu economaidd a gwella ansawdd bywyd pobl ledled y Fwrdeistref Sirol. Croesawodd y Pwyllgor y posibilrwydd o ehangu gwasanaethau a'u hamlder ymhellach a gofynnodd am wybodaeth yn y dyfodol am ffigurau defnydd cyfredol ar gyfer llwybrau, ynghyd â'r sefyllfa ariannu ac unrhyw newid yn y ddarpariaeth ar gyfer ardaloedd gwledig.

## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES

**Cludiant i'r Ysgol – Pwysau Cyllideb (Hydref 2023 a Mai 2024)**

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried materion cludiant i'r ysgol dros gyfnod o 18 mis yn ymwneud â thrafnidiaeth Ôl-16, y problemau wrth recriwtio hebryngwyr ysgol a llwybrau peryglus i'r ysgol. Trwy amlygu'r sylw ar y gwasanaeth hwn, mae rhai o'r problemau a'r pwysau cyllidebol sylweddol wedi gwella. Mae'r rhain wedi cynnwys recriwtio a chadw hebryngwyr ysgol, rôl newydd yr Arweinydd Trafnidiaeth Strategol, system brynu newydd a oedd yn caniatáu monitro contractau a chyllidebau yn agosach gan arwain at ostyngiad o £700 mil o bwysau'r gyllideb yn ystod 2023/24. Mae'r gyllideb cludiant i'r ysgol wedi cynyddu £1,279,763 ar gyfer 2024/25 er mwyn ystyried y twf yn y galw, yn enwedig disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a byddwn yn parhau i fonitro'r maes gwaith hwn, gan gynnwys adolygiad o lwybrau peryglus i'r ysgol. Mae swyddogion yn Adran yr Amgylchedd a Thechnegol yn archwilio'r posibilrwydd o brynu/prydlesu cerbydau a chreu disgrifiad swydd i yrwyr gael eu cyflogi gan yr awdurdod ar gyfer rhai o'n teithiau cost uwch. Mae swyddogion yn nhîm fflyd a thrafnidiaeth CBSW yn ystyried cynnal cynllun peilot gan fod nifer o ystyriaethau ynghlwm o ran iechyd a diogelwch, trwyddedu ac ati. Os yw'n ymarferol, gellid edrych ar y posibilrwydd o gefnogi teithiau eraill hefyd y tu allan i amseroedd gollwng a chasglu'r ysgol.

**Ystad Addysg – Buddsoddiad Cyfalaf (Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024)**

Bydd Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn symud i ffwrdd o fandiau sefydlog o gyllid i raglen dreigl fwy ystwyth o fuddsoddiad cyfalaf dros gyfnod o naw mlynedd, sy'n cynnwys cynllun tymor byr, canolig a hirdymor o fuddsoddiad cyfalaf. Gwnaethom ystyried a chefnogi methodoleg sgorio arfaethedig a phwysoliadau i'w defnyddio i flaenoriaethu ysgolion ar gyfer Band C. Bydd y pedwar prosiect Band B sy'n weddill (Ysgol Santes Fair Brymbo, Ysgol Gatholig Santes Fair, Darpariaeth Arbenigol a Darpariaeth Newydd) yn cael eu cyflwyno ym mlynyddoedd 1-3 y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (cam 1). Cynigiwyd y byddai cam 2 y rhaglen yn seiliedig ar y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r costau uwch sy'n deillio o ddarpariaeth ADY y tu allan i'r sir ar gyfer y rhai sydd ag anghenion arbenigol. Byddai Cam 3 yn mynd i'r afael â'r ysgogwyr strategol bryd hynny, ond rhagwelwyd y gallai hyn gynnwys Cyfrwng Cymraeg. Cynhaliom weithdy hefyd i Aelodau'r Pwyllgor yn yr Ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd, Ysgol Llan-y-pwll ym mis Tachwedd 2023 i ddatblygu dealltwriaeth yr Aelodau o sut mae cynnal a chadw a buddsoddi mewn ysgolion yn cael eu blaenoriaethu. Mae gan aelodau erbyn hyn well dealltwriaeth o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer ariannu cyfalaf ysgolion yn y dyfodol a gall y cyhoedd fod yn sicr nad oes unrhyw ysgolion yng nghategori D (cyflwr gwael). Y sefyllfa bresennol yw:-

- Ysgolion Cynradd – 10 categori A (da), 43 categori B (boddhaol), 5 categori C (gwael)
- Ysgolion Uwchradd – 8 categori B, 1 categori C

## PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU, CYMUNEDAU A LLES

**Gwelliannau mewn Gofal Cymdeithasol i Blant (Mawrth 2024)**

Darn allweddol o waith craffu yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu'r adolygiad o welliannau yn y Gwasanaethau Plant, yn dilyn methiannau a nodwyd mewn arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o wasanaethau plant ym mis Ionawr 2020. Bu nifer o feysydd gwella allweddol eisoes yn ystod yr adolygiad hwn, er enghraifft:-

- Amodau gwaith staff gofal cymdeithasol a'r swyddfeydd newydd yn yr Hyb Lles yn Adeiladau'r Goron.
- Datblygu llinell sylfaen perfformiad i alluogi rhybuddion cynnar o feysydd sy’n tanberfformio. Mae llawer iawn o gapasiti wedi'i adeiladu ar draws ystod o staff o ran perfformiad ar draws y Cyngor a fydd o fudd parhaus.
- Amserlen adrodd flynyddol i graffu.
- Datblygu darpariaeth fewnol i alluogi plant i gael eu lleoli'n lleol a lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth breswyl ddrud.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru archwiliad gwerthuso perfformiad o'r gwasanaeth ym mis Mehefin 2022. Gwnaethom ystyried canfyddiadau'r arolygiad a chydnabu, er bod rhai heriau i weithio arnynt o hyd, bod yr Adran wedi gwneud cynnydd da o fewn gwasanaethau plant. Cynhaliwyd archwiliad perfformiad dilynol pellach ym mis Tachwedd 2023. Cynorthwyodd Prif Arolygydd AGC swyddogion i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2024 a nododd fod gwelliannau wedi'u hymgorffori a'u bod wedi'u gwreiddio.

**Gweithwyr Asiantaeth (Ebrill 2024)**

Cyfanswm y gwariant ar staff yr Asiantaeth Gofal Cymdeithasol yn 22/23 oedd £7.7 miliwn. Mae hyn wedi gostwng gan £1.9 miliwn mewn blwyddyn. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd gostyngiad mewn staff asiantaeth gwirioneddol a gyflogir gan 30 aelod o staff. Mae nifer o staff asiantaeth wedi cymryd swyddi parhaol tra ein bod wedi llwyddo i recriwtio'n barhaol mewn meysydd eraill. Ar ben hynny, roedd rhai gostyngiadau o ganlyniad i reoli galw yn gryfach, sy'n ein galluogi i leihau niferoedd ymhellach.

**Asiantau Cymunedol yn y Sir (Mawrth 2024)**

Mae'r cynllun Asiantau Cymunedol wedi bod ar waith ers 6 blynedd a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth lefel isel i bobl hŷn er mwyn atal ynysu cymdeithasol gan ddefnyddio asedau lleol a'u datblygu lle mae bylchau yn bodoli. Mae Cynghorau Cymuned yn cael eu contractio i ddarparu'r gwasanaeth drwy gyflogi Asiant Cymunedol yn uniongyrchol a chyfreithiol, neu drwy gyflogi trydydd parti trwy gonsortia contract. Dyfernir grant safonol i bob ardal Cyngor Cymuned, gan ddarparu cyllid i dalu costau rheoli'r Asiant a chyflogaeth yr Asiant. Dim ond chwe ward yn Wrecsam sydd heb Gynllun Asiantau Cymunedol ar hyn o bryd. Yn y 6-12 mis diwethaf, mae'r Cynghorau hyn wedi ymrwymo i gadarnhau eu diddordeb i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gael darpariaeth yn eu ward. Yn flaenorol, canfu gwerthusiad a gynhaliwyd fod y gwasanaeth yn werthfawr iawn i'r dinasyddion y mae'n eu cefnogi a chaiff ei werthfawrogi'n fawr gan y Cynghorau Cymuned. Mae'r rhaglen yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac mae protocol newydd yn cael ei gyflwyno sy'n ceisio caniatáu/annog cynnwys pob Cyngor Cymuned.

## GRŴP CYDGYSYLLTU CRAFFU

Cyfarfu'r Grŵp Cydgysylltu Craffu (Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion pob un o'r 5 Pwyllgor Craffu) 6 gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw gan ystyried ystod o faterion gan gynnwys:-

- Hyfforddiant a datblygiad craffu ar gyfer cynghorwyr yn dilyn Etholiadau mis Mai. Roedd hyn yn cynnwys sgiliau cwestiynu yn benodol. Cadwyd copi fideo o'r sesiwn er mwyn gallu cynnal hyfforddiant gloywi ac i'r rhai nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiwn fyw.
- Adroddiad Rheoli Prosiectau Blynyddol. Mae hwn yn tynnu sylw at unrhyw lithriant mewn prosiectau mawr ar draws y Cyngor ac mae'r Grŵp yn ystyried unrhyw feysydd i'w cyfeirio at y Pwyllgor Craffu perthnasol. Ni chafodd unrhyw faterion, heblaw pynciau sydd eisoes wedi'u trefnu ar y rhaglenni gwaith, eu cyfeirio eleni.
- Adolygiad Blynyddol o'r Protocol Archwilio a Chraffu
- Dad-garboneiddio – Diweddaru a thrafod ag Aelod Arweiniol.
- Adroddiad Archwilio Cymru - Trefniadau ar gyfer Rhannu Gwybodaeth yn Agored drwy Bwyllgorau. Canolbwyntio ar sut y rhannodd y Cyngor wybodaeth am y defnydd o'i gyllideb refeniw a'i berfformiad.
- Proses Monitro Cyllideb Craffu. Cytunwyd ar broses gyda chefnogaeth y Prif Swyddog Cyllid ac argymhellwyd i bob un o'r pum pwyllgor craffu i sicrhau cyfathrebu cyllidebol rheolaidd rhwng Pwyllgorau Craffu unigol a'r Bwrdd Gweithredol.
- Diweddariad ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd, yn enwedig manylion y compact cydweithio newydd ar draws Wrecsam a Sir y Fflint.
- Adolygiad o'r Ffurflen Dewis Pwnc a ddefnyddir ar hyn o bryd i ganiatáu i bynciau newydd gael eu dwyn i sylw pwyllgorau perthnasol.

## DWEDOCH CHI, GWNAETHOM NI –

**Hebryngwyr Ysgol** - Mae Cyngor Wrecsam wedi ei chael hi'n anodd recriwtio hebryngwyr i hebrwng plant ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol ar eu taith i'r ysgol ac oddi yno. Mae hyn wedi arwain at rai plant yn colli'r ysgol ac nid yw'r Cyngor wedi gallu bodloni ei rwymedigaeth statudol i gludo plant i'w lle addysg priodol. Mae hyn hefyd yn effeithio ar fywydau rhieni gan nad ydynt yn gallu mynd i'r gwaith oherwydd bod yn rhaid iddynt aros gartref gyda'u plentyn/plant. Yn dilyn nifer o bryderon a godwyd gan rieni, gofynnodd Aelod i'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes ystyried y mater. Arweiniodd hyn at gydweithio rhwng swyddogion o Adran yr Amgylchedd, Adnoddau Dynol a'r Adran Addysg i drafod ystod o gamau gweithredu, gan gynnwys mwy o gyhoeddusrwydd ac ymgyrch recriwtio ynghylch hebryngwyr ysgol; recriwtio hebryngwyr ysgol yn gyflym; defnyddio cynorthwywyr addysgu. Er bod 9 o hebryngwyr ysgol naill ai wedi ymddiswyddo neu ymddeol rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mai 2024, roedd 24 o aelodau newydd wedi cael eu recriwtio. Bydd cael cronfa fwy o hebryngwyr yn caniatáu mwy o hebryngwyr i hebrwng disgyblion sy'n gorfod cael eu hebrwng gan eu rhieni (mae hyn wedi lleihau o 12 i 10 ar adeg adrodd ym mis Mai 2024). Drwy adolygu llwybrau a darpariaeth, bu gostyngiad hefyd mewn costau o £157,130 i £138,795 y flwyddyn. Gan fod

recriwtio yn y maes hwn yn dal i fod yn broblem, bydd craffu yn parhau i fonitro hyn ynghyd â meysydd eraill mewn perthynas â chludiant ysgol.

**Recriwtio Meddygon Teulu a Phractisau Meddygon Teulu** - Oherwydd nifer sylweddol o bryderon gan y cyhoedd ynghylch mynediad at wasanaethau meddyg teulu mewn ardaloedd ar draws Wrecsam, yn enwedig yn yr ardaloedd a wasanaethir gan feddygfeydd Hillcrest, Forge Road a Borras, mae Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles yn parhau i wahodd cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd lleol (BIPBC) a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) i ystyried atebion posibl i'r broblem. Mae'r rhain wedi cynnwys penodi dau feddyg teulu ychwanegol, Ymarferwyr Nyrsio Uwch ychwanegol a Gwasanaeth teleffoni newydd. Mae cynllun adfer lleol bellach ar waith ar gyfer 2023/24 a bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd. Mae'r pwnc hwn yn derbyn sylw sylweddol yn y cyfryngau lleol ac yn helpu i gyfleu'r neges i drigolion lleol o'r gwaith sy'n cael ei wneud i geisio mynd i'r afael â'r mater.

## CASGLIAD

Mae craffu yn Wrecsam yn broses esblygol o gefnogaeth a her i'r Cyngor a sefydliadau allanol er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â ni yma yn cael y gwasanaethau gorau posibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r gwaith a amlygwyd o dan bob pwyllgor yn dangos, gobeithio, ein bod ni fel Aelodau wedi canolbwyntio ar yr eitemau mawr sy'n effeithio ar bobl Wrecsam. Mae rhai o'r rhain wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwn (e.e. y galw cynyddol a'r pwysau cyllidebol mewn Gofal Cymdeithasol Plant, y problemau o ran gallu cael mynediad at feddygon teulu, y ffocws ar ysgolion a’r Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar ehangach, gwella trafnidiaeth gyhoeddus, datgarboneiddio). Gellir gweld y pynciau craffu eraill sydd wedi'u hystyried yn ystod y flwyddyn adrodd drwy ddefnyddio'r ddolen a ddarparwyd yng Nghyflwyniad yr adroddiad hwn.

Dros y cyfnod hwn rydym wedi cyflawni rhywfaint o waith manwl gan ddefnyddio grwpiau gorchwyl a gorffen, gan gynnwys y Grŵp Monitro Gwella Ysgolion, Grŵp Gorchwyl a Gorffen ffermydd a thir sy'n eiddo i'r Cyngor a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Newid Ymddygiad Datgarboneiddio.

Mae craffu hefyd yn parhau i ystyried dulliau gwaith y Cyngor sydd wedi cael eu haddasu yn dilyn pandemig Covid. Mae hyn yn cynnwys Adolygiad o Wasanaeth Cwsmeriaid, lle bu mwy o ddefnydd o ddulliau digidol ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae llawer o'r ffyrdd mwy modern hyn o weithio bellach yn fwy canolog a bydd craffu yn parhau i fonitro cynnydd i sicrhau bod y newidiadau hyn yn arwain at wasanaethau gwell a mwy effeithlon i'r cwsmer, tra'n cynnal cyswllt wyneb yn wyneb i gwsmeriaid agored i niwed sydd angen mwy o gymorth i gael mynediad at wasanaethau.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd newydd o bryder a chyfle wrth i ni barhau â'r gwaith craffu yn ystod y flwyddyn i ddod.  Mae craffu ar y gyllideb yn debygol o ddigwydd yn amlach o ystyried y galw cynyddol ar wasanaethau yn ystod cyfnod o gyllid is.